

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol Tasglu Data Cynhwysol: ein cynllun i wneud data yn fwy cynhwysol



**Llyfryn hawdd ei
ddarllen**
Ionawr 2022

Cynnwys



Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud:
tudalen 2



Rhagor am ein Cynllun: tudalen 3



Egwyddorion data cynhwysol: tudalen 4




Beth i'w wneud os oes gennych unrhyw
gwestiynau: tudalen 15



Yn y ddogfen hawdd ei darllen hon, mae
geiriau a allai fod yn anodd eu deall
mewn print **trwm**. Eglurwn beth yw
ystyr y geiriau hyn ar ôl iddynt gael eu
defnyddio.

Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud



Ni yw'r Swyddfa **Ystadegau** Gwladol.

Gwybodaeth sy'n cael ei chasglu a'i chymharu gan bobl neu sefydliadau yw **ystadegau**.

Buom yn gweithio gydag eraill i ddysgu sut yr oeddent yn gwella **data** yn y DU fel eu bod yn fwy **cynhwysol**.

Ffeithiau neu ffigurau yw **data**.

Mae **cynhwysol** yn golygu y gall pawb gymryd rhan.

Mae'r **Ystadegydd Gwladol** yn gyfrifol am gasglu gwybodaeth am bobl sy'n byw yn y DU.

Yn y llyfryn hwn rydym yn dweud wrthyich am ein **Cynllun Gweithredu**. Mae'r cynllun hwn yn esbonio rhai newidiadau presennol a rhai'r dyfodol a ddylai wneud data'r DU yn well ac yn fwy cynhwysol.

Rhagor am ein Cynllun



Mae'r newidiadau a restrir yn ein cynllun wedi'u grwpio o dan 8 **egwyddor** data **cynhwysol**.

Egwyddorion yw'r hyn rydym yn credu ynddo.



Mae rhai newidiadau eisoes wedi dechrau digwydd neu fe fyddan nhw'n fuan. Bydd mwy o newidiadau yn y dyfodol. Bydd y cynllun hwn yn cael ei ddiweddarau bob blwyddyn.



Bydd grŵp **annibynnol** newydd o'r enw pwyllgor cynghori'r Ystadegydd Gwladol yn cynghori'r Ystadegydd Gwladol ar sut i wneud data yn fwy cynhwysol.

Mae **annibynnol** yn golygu nad ydyny yn rhan o'r llywodraeth.



Byddant yn cyhoeddi eu cyngor ynghyd â chynnydd ar y cynllun. Bydd pawb yn gallu gweld yr adroddiadau.

Egwyddor data cynhwysol 1

Creu ymddiriedaeth



Rydym am sicrhau bod pobl yn gallu darparu eu data'n ddiogel a gwybod sut y caiff eu defnyddio. Bydd hyn yn helpu pobl i wybod ei bod yn ddiogel darparu eu gwybodaeth.



Rydym am i bobl o gefndiroedd gwahanol a phobl sydd **heb gynrychiolaeth ddigonol** wybod y byddant yn cael eu cynnwys yn y data.



Mae **heb gynrychiolaeth ddigonol** yn golygu bod gennym lai o ddata am y mathau hyn o bobl o gymharu â mathau eraill o bobl.



Bydd Awdurdod Ystadegau'r DU yn cynnal gweithgareddau i:

- cynyddu ymddiriedaeth pobl mewn casglu data
- sicrhau bod grwpiau sy'n casglu data'n ei wneud yn y ffordd gywir

Egwyddor data cynhwysol 2

Cydweithio i wneud newidiadau ar draws y DU ar yr un pryd




Byddwn yn gweithio gyda llawer o sefydliadau i wneud yn siŵr bod data'n dod yn fwy cynhwysol ledled y DU gyfan ar yr un pryd.



Mae hyn yn cynnwys:

- y **llywodraeth** a **gweinyddiaethau datganoledig** ledled y DU
- pobl sy'n gweithio ym myd addysg ac ymchwil
- sefydliadau cymunedol ac elusennau



Llywodraeth y DU a'r **gweinyddiaethau datganoledig** sy'n gyfrifol am redeg y wlad.



Y **gweinyddiaethau datganoledig** yw Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.



Byddwn yn rhoi cyngor i helpu i sicrhau:

- mae casglu data yn gynhwysol
- gellir cymharu data
- mae'r data a gesglir o ansawdd da



Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dod o hyd i enghreifftiau da o ffyrdd o wneud data'n gynhwysol. Byddant yn rhannu'r enghreifftiau da gyda phawb arall.



Bydd pwyllgor cynghori newydd yr Ystadegydd Gwladol ar ddata cynhwysol yn:

- gwirio bod sefydliadau'n dilyn y cynllun hwn
- ysgrifennu adroddiadau i ddangos y newidiadau sydd wedi digwydd



Byddwn yn meddwl sut y gellir casglu data gan lawer o wahanol fathau o bobl yn y DU.



Byddwn yn ysgrifennu **Cynllun Gwerthuso**. Bydd **Cynllun Gwerthuso** yn dangos:

- pa newidiadau y mae sefydliadau'n eu gwneud
- beth yw canlyniadau ac effaith y newidiadau

Egwyddor data cynhwysol 3

Sicrhau bod data'n dod o bob math o bobl



Mae angen casglu data gan bob math o bobl ym mhob rhan o'r DU. Mae angen i ni barhau i wirio y gwneir hyn yn y ffordd gywir.



Byddwn yn ysgrifennu cynllun ac yn gwneud gweithgareddau i sicrhau bod grwpiau o bobl sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn nata'r DU yn gallu cymryd mwy o ran.



Rydym am i sefydliadau sy'n defnyddio data gydweithio i wneud yn siŵr bod data'n cael eu casglu am bob math o bobl.



Bydd pwyllgor cynghori newydd yr Ystadegydd Gwladol ar ddata cynhwysol yn rhoi cyngor ar sut i gael mwy o bobl heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan.

Egwyddor data cynhwysol 4

Casglu data o ansawdd da



Mae angen i ni wella ein ffyrdd o weithio fel bod:

- digon o ddata'n cael eu casglu
- data a gesglir o ansawdd da ac yn cynnwys gwybodaeth gan bob math o bobl



Mae ar sefydliadau sy'n defnyddio ac yn cymharu data angen iddynt fod o ansawdd da.



Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn creu gwasanaeth o'r enw'r Gwasanaeth Data Integredig.



Bydd hyn yn helpu sefydliadau o bob rhan o'r DU i:

- weld mwy o ddata
- cysylltu data ynghyd
- cymharu data mewn ffordd well

Egwyddor data cynhwysol 5

Defnyddio'r geiriau a'r ymadroddion cywir



Mae angen i weithgareddau casglu data ddefnyddio'r geiriau neu'r ymadroddion cywir i ddisgrifio pobl.



Mae'n bwysig:


- defnyddio geiriau ac ymadroddion y mae pobl yn eu deall ac yn hapus â nhw



- gwneud yn siŵr bod geiriau ac ymadroddion yn golygu'r un peth i bawb a'u bod yn gynhwysol



- defnyddio'r un geiriau ac ymadroddion ar draws gwahanol weithgareddau casglu data er mwyn gallu cymharu data



Byddwn yn gwella cyngor ar sut i gasglu data cynhwysol o ansawdd da trwy siarad â llawer o bobl.

Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn cyhoeddi cynllun ar gyfer diweddarau'r cyngor hwn. Bydd pawb yn gallu gweld y cynllun hwn ac yn gallu cymryd rhan.



Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio gyda llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i wella cyngor:



- am y geiriau a'r ymadroddion cywir i'w defnyddio wrth gasglu data fel eu bod yn gynhwysol, yn hawdd i'w deall ac yr un peth ledled y DU
- i helpu sefydliadau i rannu ffyrdd da o weithio
- am y rheolau y mae'r llywodraeth am i sefydliadau sy'n casglu ac yn defnyddio data eu dilyn



Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn rhoi cyngor ar y ffyrdd gorau o gasglu data am **nodweddion personol**.



Mae oedran, crefydd a chefnidir yn enghreifftiau o **nodweddion personol**.

Egwyddor data cynhwysol 6

Rhoi cynnig ar ffyrdd gwahanol a newydd o gasglu data



Mae angen i ni roi cynnig ar ffyrdd newydd o gasglu data i'n helpu i ddeall mwy am wahanol fathau o bobl a'r hyn sydd ei angen arnynt.



Byddwn yn canfod ac yn rhannu'r gweithgareddau casglu data newydd gorau ar gyfer gwahanol fathau o wybodaeth a phobl, i'n helpu i ddeall grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn well.



Bydd pwyllgor cynghori newydd yr Ystadegydd Gwladol ar ddata cynhwysol yn rhoi cyngor ar yr **ymchwil ansoddol** gorau i'w ddefnyddio i'n helpu i ddeall grwpiau a dangynrychiolir yn well.



Ymchwil ansoddol yw deall safbwyntiau, profiadau ac anghenion pobl o'u safbwynt eu hunain.

Egwyddor data cynhwysol 7

Gwirio bod y cyngor ar ddefnyddio'r geiriau a'r ymadroddion cywir yn gyfredol



Mae angen i ni sicrhau bod y cyngor yn gyfredol o leiaf bob 5 mlynedd a gwella neu ychwanegu at y wybodaeth os oes angen.



Mae angen i ni sicrhau bod cyngor yn cyd-fynd â:

- newidiadau i'r ffordd y mae'r **cyhoedd** yn meddwl a'r geiriau a'r ymadroddion y maent yn eu defnyddio
- beth sydd ei angen ar bobl sy'n darparu data
- beth sydd ei angen ar bobl sy'n defnyddio data



Mae'r **cyhoedd** yn bobl gyffredin fel y bobl yn eich ardal leol.



Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn siarad â llawer o bobl a grwpiau i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y newidiadau cywir i gyngor.



Byddant yn ysgrifennu cynllun i ddangos pryd y caiff y cyngor ei wirio i gadw i fyny â newidiadau yn y ffordd y mae'r cyhoedd yn meddwl.



Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn annog pobl i ddefnyddio'r cyngor ledled y DU.



Bydd y Swyddfa Ystadegau Gwladol yn gweithio gyda llywodraeth y DU a'r gweinyddiaethau datganoledig i helpu i wneud ystadegau yr un fath ar draws y DU.

Egwyddor data cynhwysol 8

Sicrhau bod data yn hygyrch




Mae angen i ddata fod yn hygyrch i bawb. Er enghraifft, efallai y bydd angen i ni gynnig ieithoedd a fformatau gwahanol er mwyn i bawb allu darllen a deall y data.



Mae angen i ni hefyd gadw unrhyw wybodaeth **bersonol** sydd gennym am bobl yn ddiogel.

Mae **personol** yn golygu ei fod yn ymwneud â chi ac yn breifat.



Byddwn yn siarad â llawer o bobl fel ein bod yn deall y ffyrdd gorau o wella hygyrchedd a chadw gwybodaeth personol yn ddiogel.



Bydd y Gwasanaeth Data Integredig newydd yn cadw gwybodaeth personol yn ddiogel fel mai dim ond sefydliadau'r llywodraeth a defnyddwyr cymeradwy eraill sy'n gallu cyrchu a defnyddio data yn hawdd. Ni fydd yn bosibl adnabod pobl unigol mewn unrhyw beth a gyhoeddir.

Beth i'w wneud os oes gennych unrhyw gwestiynau



Cysylltwch â ni os hoffech siarad am ein cynllun.



Anfonwch e-bost i'r cyfeiriad hwn: equalities@ons.gov.uk



Gelwir fersiwn lawn y ddogfen hon

"Cynllun Gweithredu'r Tasglu Data Cynhwysol"